OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 Rhif 1720 (Cy. 234)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Ty'n-y-maes, Man i'r De o Fethesda, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro) 2015

Gwnaed	*21 Medi 2015*
Yn dod i rym	*25 Medi 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Medi 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Ty'n-y-maes, Man i'r De o Fethesda, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro) 2015.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A5 yn Nhy'n-y-maes, man i'r de o Fethesda yn Sir Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 210 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd a elwir yr hen A5 tua'r de hyd at bwynt 600 metr i'r de o'r gyffordd honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i

unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 3 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Medi 2015

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.